

Datganiad Polisi Cyhoeddus

Diogelu pobl hŷn

Hydref 2025

Crynodeb

Mae cam-drin pobl hŷn yn parhau i fod yn un o heriau mwyaf brys ein cymdeithas, oherwydd y canlyniadau corfforol, emosiynol a chymdeithasol difrifol sy'n effeithio ar ddioddefwyr.¹

Mae gan bob un ohonom yr hawl i fyw yn rhydd o gamdriniaeth o unrhyw fath. Ni ddylai ein hoedran na'n hamgylchiadau gael unrhyw effaith ar yr hawl sylfaenol hon.² Nid yw oedran yn lleihau hawl unigolyn i fyw gydag urddas a pharch.³

Mae diogelu yn cynnwys ystod o weithgareddau sydd â'r nod o gynnal hawl sylfaenol unigolyn i fyw yn ddiogel, yn rhydd o gam-drin ac esgeulustod.

Mae deddfwriaeth yn elfen hanfodol o ddiogelu oedolion; Mae ganddo'r gallu i osod dyletswyddau a phwerau statudol fel bod amddiffyniad oedolion yn cael ei ymgymryd yn effeithiol gan yr holl asiantaethau allweddol. Mae ffyrdd eraill i amddiffyn oedolion rhag cam-driniaeth yn cynnwys polisi newydd, mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, hyfforddiant, a mynediad at wasanaethau eiriolaeth.

Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad bod yna gynllun gweithredu cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru i atal cam-drin pobl hŷn. Mae gan y cynllun dair thema gyffredinol: 1. mae pobl hŷn yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol gydag urddas ac yn gallu cael mynediad at gymorth perthnasol gan wasanaethau diogelu pan maen nhw mewn perygl o gael eu cam-drin neu esgeulustod; 2. mae pobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig neu drais rhywiol yn gallu cael mynediad at gymorth perthnasol gan wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) pan fo angen; 3. Mae pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin neu esgeulustod.⁴ Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro gweithrediad y Cynllun Gweithredu er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd.

Mae'r cynllun gweithredu yn adeiladu ar y fframweithiau deddfwriaethol a sefydlwyd drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,⁵ Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016,⁶ a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.^{7,8}

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi diogelu oedolion ar sail statudol ac yn ffurfio fframwaith cyfreithiol ar gyfer amddiffyn oedolion yng Nghymru. Mae'r Codau Ymarfer a'r Rheoliadau yn siapio gweithredu'r Ddeddf trwy gwblhau'r fframwaith y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo. Mae'r rhain yn cynnwys Canllawiau Statudol mewn perthynas â Diogelu a Chod Ymarfer ar Eiriolaeth. Mae'r Ddeddf hefyd wedi sefydlu Byrddau Diogelu.

Rhaid i asiantaethau weithio gyda'i gilydd i ddiogelu unigolion, i gynnal hawl sylfaenol unigolyn i fod yn ddiogel, i leihau bregusrwydd, ac i gefnogi'r rhai sydd wedi profi cam-driniaeth neu esgeulustod.

Rhaid i awdurdodau lleol roi eu dyletswydd i wneud ymholiadau wrth wraidd eu hymateb i bryderon diogelu cychwynnol sy'n cael eu codi, gyda gwell tryloywder yn y ffordd y mae atgyfeiriadau a phryderon yn cael eu prosesu. Ar ben hynny, rhaid iddynt sicrhau bod ffurflenni atgyfeirio diogelu yn hygyrch ac ar gael mewn ystod o fformatau i hwyluso atgyfeiriadau gan drydydd parti, gan gynnwys pobl hŷn.

Rhaid i hyfforddiant ar ddiogelu oedolion fod yn orfodol i'r holl staff sy'n ymwneud â gofal a chefnogaeth pobl hŷn, a rhaid i hawliau dynol gael eu prif ffrydio wrth ddatblygu polisi ac arferion wrth ofal a chefnogi pobl hŷn.

Gall eiriolaeth annibynnol helpu i unioni'r anghydbwysedd pŵer sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd ble mae cam-drin yn digwydd a gall alluogi'r person i gymryd rhywfaint o reolaeth yn ôl. Er mwyn darparu 'llais a rheolaeth', yn unol â bwriad datganedig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae mynediad at gymorth eiriolaeth annibynnol yn hanfodol – yn enwedig i oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, a'r rhai sy'n destun ymchwiliad diogelu. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr gwasanaethau gwirfoddol i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau eiriolaeth ymhlith pobl hŷn a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw.

Mae pobl hŷn yn aml yn cael eu targedu gan dwyll ariannol a sgamiau. Credwn y dylid gwella mesurau i amddiffyn pobl hŷn rhag twyll a sgamiau. Dylai Llywodraeth y DU osod dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaeth i leihau achosion o dwyll trwy rwydweithiau post, ffôn a rhyngrwyd.

Credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod yr un pwysau yn cael ei roi i atal cam-drin yng Nghymru, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni arloesol o waith ataliol.

Crynodeb o'r cynigion polisi cyhoeddus

- Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro gweithrediad y cynllun gweithredu Cenedlaethol i atal cam-drin pobl hŷn er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd.
- Rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth hawliau dynol y DU yn y dyfodol amddiffyn yr hawliau a'r rhyddid yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ni ddylai danseilio effeithiolrwydd na chwmpas y Ddeddf Hawliau Dynol na'r potensial i'w gorfodi, a rhaid iddo adlewyrchu amgylchiadau penodol Cymru.
- Rhaid i bob asiantaeth sy'n ymwneud â gofal a chefnogi pobl hŷn fabwysiadu dull cyson o ddiogelu. Rhaid i hyfforddiant ar ddiogelu oedolion fod yn orfodol i'r holl staff sy'n ymwneud â gofal a chymorth pobl hŷn.

- Rhaid i awdurdodau lleol roi eu dyletswydd i wneud ymholiadau wrth wraidd eu hymateb i bryderon diogelu cychwynnol sy'n cael eu codi, gyda gwell tryloywder yn y ffordd y mae atgyfeiriadau a phryderon yn cael eu prosesu.
- Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod ffurflenni atgyfeirio diogelu yn hygyrch ac ar gael mewn ystod o fformatau i hwyluso atgyfeiriadau gan drydydd parti, gan gynnwys pobl hŷn.
- Rhaid i hawliau dynol gael eu prif ffrydio i ddatblygu polisi ac arferion gan yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â gofal a chefnogaeth ar gyfer pobl hŷn.
- Mae angen gwell gwaith rhyng-asiantaeth rhwng gwasanaethau diogelu oedolion a cham-drin domestig fel bod pobl hŷn yn derbyn cymorth ac ymyriadau priodol cyn gynted â phosibl.
- Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio â darparwyr gwasanaethau gwirfoddol i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fodolaeth, pwrpas a manteision eiriolaeth ymhlith pobl hŷn a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw.
- Dylai pob person hŷn sydd wedi dioddef camdriniaeth, waeth a ydynt yn bodloni meini prawf oedolyn mewn perygl, gael cynnig gwasanaethau eiriolwr gan awdurdodau lleol.
- Llywodraeth y DU i ddarparu rhagor o opsiynau i ddiogelu i bobl hŷn sy'n cael eu targedu gan dwyll trwy osod dyletswydd ar ddarparwyr post, ffôn a rhyngwrwyd i leihau nifer y sgamiau yn eu rhwydweithiau.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod yr un pwysau yn cael ei roi i atal cam-drin yng Nghymru, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni arloesol o waith ataliol i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig: Llawr Gwaelod, Tŷ'r Morwyr, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2025.

¹ [Datganiad Ysgrifenedig: Adroddiad Diweddariad y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn 2025 - Ymrwymiad Cenedlaethol i frwydro yn erbyn cam-drin pobl hŷn \(15 Gorffennaf 2025\) | LLYW. CYMRU](#)

² Age Cymru (2024) Diogelu pobl hŷn yng Nghymru rhag cam-drin ac esgeulustod. Taflen wybodaeth 78w. Tachwedd 2024 [Microsoft Word - FS78w - Tachwedd 2024](#)

³ Llywodraeth Cymru (2020) Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio: Cymru sy'n gyfeillgar i oedran. <https://gov.wales/strategy-ageing-society-age-friendly-wales>

⁴ [Cynllun gweithredu cenedlaethol i atal cam-drin pobl hŷn \[HTML\] | LLYW. CYMRU](#)

⁵ [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

⁶ [Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#)

⁷ [Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\) 2015](#)

⁸ [Datganiad Ysgrifenedig: Adroddiad Diweddariad y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn 2025 - Ymrwymiad Cenedlaethol i frwydro yn erbyn cam-drin pobl hŷn \(15 Gorffennaf 2025\) | LLYW. CYMRU](#)